Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion

Mai 2012

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd / Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith / Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard / Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Pa mor dda y mae darparwyr yn targedu plant a dysgwyr sy’n oedolion?** | **8** |
| **I ba raddau y mae cyfranogwyr o’r grwpiau targed cytûn?** | **9** |
| **Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **11** |
| **I ba raddau y mae oedolion yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd?** | **13** |
| **Beth yw effaith y rhaglenni ar y plant sy’n cymryd rhan?** | **15** |
| **Pa mor dda yw’r gweithdrefnau ar gyfer monitro ansawdd ac effaith y ddarpariaeth?** | **17** |
| **Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth** | |
| **Atodiad 2 – Geirfa/cyfeiriadau** | |
| **Atodiad 3 – Llyfryddiaeth** | |
| **Atodiad 4 – Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor yn y llythyr cylch gwaith gweinidogol blynyddol i Estyn ar gyfer 2011-2012. Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau Estyn am gysondeb ac ansawdd y rhaglenni dysgu teuluol. Mae'n codi ymwybyddiaeth am yr angen i fesur y cynnydd a wnaed gan blant a'u teuluoedd. Mae'n nodi arfer orau wrth olrhain, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion ac oedolion.

2 Mae'r adroddiad yn ystyried:

- pa mor effeithiol yw rhaglenni dysgu teuluol wrth godi safonau llythrennedd/rhifedd plant ifanc;
- p'un a oes cysondeb yn ansawdd cyflwyno rhaglenni dysgu teuluol;
- y cynnydd a wna oedolion wrth wella eu safonau llythrennedd/rhifedd eu hunain;
- beth sy'n gyfystyr ag arfer dda wrth gyflwyno rhaglenni dysgu teuluol;
- i ba raddau y mae'r rhaglenni'n arwain at gymorth dilynol gwell ar gyfer y plant hynny sydd ei angen; ac
- i ba raddau y mae'r rhaglenni'n cynnig gwerth am arian.

3 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y darparwyr hynny a ariennir i gyflwyno Rhaglenni Dysgu Teuluol trwy 'Raglen Grantiau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru. Cafwyd y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o nifer o ffynonellau:

- adroddiadau arolygu a dogfennaeth a data perthnasol arall;
- ymweliadau â darparwyr;
- cyfarfodydd â rheolwyr a chydlynwyr dysgu teuluol;
- cyfweliadau â dysgwyr; a
- chyfarfodydd â darparwyr addysg oedolion.

## Cefndir

4 Cyflwynwyd rhaglenni dysgu teuluol gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yng nghanol y 1990au i godi safonau llythrennedd a rhifedd rhieni a phlant. Nod y rhaglenni oedd torri'r cylch tangyflawni lle mae'n digwydd mewn teuluoedd ac ymestyn medrau rhieni i gefnogi addysg eu plentyn. Cyflwynwyd y rhaglen gan awdurdodau lleol a darparwyr addysg oedolion trwy weithio mewn partneriaeth.

5 Yn 2001, yn dilyn llwyddiant mentrau'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, fel 'Helpu Eich Plentyn i Ddarllen' a 'Helpu Eich Plentyn gyda Mathemateg', cydnabuwyd manteision rhaglenni teuluol. Daeth y mentrau hyn yn rhan annatod o'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru (2001). Nododd ymchwil y strategaeth fod gan 7 o 10 plentyn yr oedd eu llythrennedd yn wael yn 10 oed rieni yr oedd eu medrau llythrennedd yn wael hefyd.

6 Adolygwyd y strategaeth yn 2004. Yn sgil yr adolygiad o raglenni teuluol, canfuwyd eu bod yn gweithio'n dda pan oeddent yn ymgysylltu â rhieni sy'n anodd eu cyrraedd. Arweiniodd y rhaglenni at ddeilliannau addysgol gwell ar gyfer plant, ac at ystod o fanteision i oedolion, yn cynnwys dilyniant i addysg bellach ac i gyflogaeth.

7 Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o'r rhaglenni'n effeithiol wrth recriwtio rhieni â medrau isel bob tro. I fynd i'r afael â hyn, rhoddodd strategaeth newydd, 'Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri' (2005) fwy o ffocws ar recriwtio a ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'r grŵp targed, tra'n cadw'r ffocws ar fedrau sylfaenol; datblygiad oedolion a phlant mewn llythrennedd a rhifedd. Roedd y mentrau dysgu teuluol newydd yn cynnig dull mwy hyblyg ac amrywiaeth ehangach o raglenni.

8 'Rhaglen Grantiau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r rhan fwyaf o'r rhaglenni dysgu teuluol presennol. Mae'r grant hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer 'rhaglenni Iaith a Chwarae'. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a phartneriaid allanol yn nodi ffynonellau cyllid eraill fel Cyllid Addysg Bellach a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, i ychwanegu at gyflwyno a darparu cyfleoedd estynedig ar gyfer oedolion a phlant.

9 Mae'r Rhaglen Grantiau yn nodi bod rhaid defnyddio cyllid ar gyfer Grwpiau targed penodol, sef:

- Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill sydd dan anfantais sylweddol; ac
- ysgolion sy'n wynebu amgylchiadau heriol a lle mae problem ddifrifol â thangyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgolion.

10 Ystyr tangyrhaeddiad at ddiben y rhaglenni dysgu teuluol yw ble mae disgybl yn perfformio mewn llythrennedd a rhifedd ar lefel is y Cwricwlwm Cenedlaethol na'r cyrhaeddiad a ddisgwylir ar gyfer disgybl o'i (h)oedran.

11 Y grŵp targed ar gyfer cyfranogwyr sy'n oedolion yw'r rhai y mae eu medrau presennol mewn llythrennedd a rhifedd islaw lefel mynediad 3[1].

[1] Mae'r safonau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd oedolion a rhifedd oedolion wedi'u nodi ar 3 lefel, sef; mynediad; lefel 1 a lefel 2. Mae lefelau 1 a 2 yn cyd-fynd â chymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru. Caiff lefel mynediad ei rhannu ymhellach yn 3 is-lefel, sef; mynediad 1, mynediad 2 a mynediad 3.

12 Mae amrywiaeth eang o gyhoeddiadau, arolygon ac adroddiadau yn cofnodi pwysigrwydd rhaglenni teuluol a'r effaith gadarnhaol y gall y rhain ei chael ar wella medrau llythrennedd oedolion ac ar wella'r safonau a gyflawnir gan blant mewn ysgolion.

13 Mae ymchwiliad diweddar gan NIACE[2], 'Work, Society and Lifelong Literacy' (2011) yn cadarnhau'r effaith bwysig a gaiff dysgu teuluol ar y safonau a gyflawnir gan blant. Canfu'r ymchwiliad na all ysgolion fynd ati ar eu pen eu hunain i fynd i'r afael â'r anfanteision niferus sy'n wynebu llawer o deuluoedd.

14 Mae 'Astudiaeth Hydredol y Mileniwm' gan y Ganolfan Astudiaethau Hydredol (2010)[3] yn edrych yn fanwl ar broffil rhieni sy'n darllen i'w plant. Mae'n dweud bod rhieni â medrau addysgol uwch yn darllen yn amlach i'w plant na'r rhai â medrau isel. Mae canfyddiadau'n dangos bod teuluoedd, ar y cyfan, yn darllen yn llai aml i'w plant na rhieni mewn gwledydd cartref eraill.

15 Mae Desforges yn nodi'r cyswllt rhwng darllen gartref a chyflawniad plant (2003)[4]. Dengys ymchwil fod sgorau darllen disgyblion yn uwch ac yn gwella'n gyflymach mewn teuluoedd sy'n ymgymryd â gweithgareddau darllen gartref.

16 Mae 'Intelligence and Marketing Insight: Family Learning' (2007)[5] yn edrych ar effaith ehangach rhaglenni teuluol. Mae'r adroddiad yn nodi'r ffaith fod plant yn gadael y rhaglenni gyda hyder gwell a mwy o hunan-barch. Mae'r ffactorau hyn yn arwain at effaith eilaidd gadarnhaol ar deuluoedd, ysgolion a'r gymuned ehangach.

17 Yn adroddiad Ofsted, 'Family Learning: An Evaluation of the Benefits of Family Learning for Participants, their Families and the Wider Community' (2009)[6], canfu arolygwyr fod rhaglenni teuluol yn cael effaith sylweddol ar ymddygiad plant yn yr ysgol. Mae ganddynt fedrau cyfathrebu gwell, maent yn ymgynefino'n well yn y dosbarth ac mae ganddynt berthynas well gydag athrawon a chyfoedion.

18 Mae adroddiad Estyn, 'Mynd i'r afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion' (2011)[7] yn nodi'r ffaith mai amgylchiadau cartref sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynnydd a chyflawniad plentyn. Mae canlyniadau disgyblion yn uwch ac maent yn fwy tebygol o lwyddo pan fydd rhieni yn cael eu cynnwys yn eu haddysg ac yn rhoi cymorth ar gyfer dysgu.

---

[2] http://shop.niace.org.uk/media/catalog/product/l/i/literacy_inquiry_-_full_report-web.pdf

[3] http://search.ioe.ac.uk/search?q=millennium+longitudinal+study&site=CLS_New&client=CLS_New&output=xml_no_dtd&proxystylesheet=CLS_New&proxyreload=1

[4] Desforges, C. (2003) The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievements and Adjustment.

[5] http://www.arsyllfadysgu.com/adnodd/cipolwg-dysgu-dysgu-fel-teulu-chwefror-2007/

[6] http://www.ofsted.gov.uk/resources/family-learning

[7] http://www.estyn.gov.uk/download/publication/205432.5/mynd-ir-afael-thlodi-ac-anfantais-mewn-ysgolion-cydweithio-r-gymuned-a-gwasanaethau-eraill-gorffennaf-2011/

## Prif ganfyddiadau

### Recriwtio

19 Mae cydlynwyr rhaglenni dysgu teuluol yn defnyddio ystod dda o wybodaeth i nodi ysgolion a fyddai'n elwa ar raglenni dysgu teuluol. Pan fydd ysgol yn derbyn cynnig darpariaeth, maent yn gosod targedau recriwtio priodol ar gyfer y cyrsiau yn yr ysgol honno. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar gydlynwyr yn gosod targedau ar gyfer ysgolion unigol. Nid ydynt yn gosod targed cyffredinol ar gyfer yr awdurdod lleol.

20 Mae bron pob darparwr yn marchnata rhaglenni teuluol yn dda ac mae llawer ohonynt yn defnyddio ffyrdd arloesol o darged teuluoedd penodol. Mae'r rhaglenni mwyaf effeithiol yn defnyddio hyrwyddwr o'r ysgol sydd â hygrededd gyda'r rhieni, sy'n gwybod amgylchiadau'r teulu ac yn gallu adeiladu perthynas dda gyda nhw.

21 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr ac ysgolion yn recriwtio rhieni ar ôl nodi'r plant a fyddai'n elwa o raglenni teuluol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion neu ddarparwyr dysgu teuluol sy'n cofnodi neu'n olrhain plant y nodwyd bod angen cymorth arnynt ond nad ydynt yn cymryd rhan yn y rhaglenni. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am y niferoedd sy'n cymryd rhan nac unrhyw gymorth a gânt, os cânt unrhyw gymorth o gwbl.

22 Mae bron pob un o'r cyfranogwyr yn y rhaglenni dysgu teuluol o'r grwpiau targed a nodwyd yn y Rhaglen Grantiau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, caiff y lefel a nodir ar gyfer rhieni sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni ei gosod yn rhy isel. Mae hyn yn arwain at eithrio rhai plant o'r rhaglenni.

23 Mae bron pob un o'r darparwyr yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid fel Cymunedau yn Gyntaf a Gwasanaethau Iechyd. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau, nid oes cynlluniau strategol wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer rhannu adnoddau, fel canolfannau ieuenctid a chanolfannau Dechrau'n Deg, sy'n golygu bod llawer o gyfleoedd yn cael eu colli.

24 Mae pob darparwr yn deall y rhwystrau rhag dysgu y mae'r mwyafrif o'r rhieni targed yn eu hwynebu ac maent yn eu helpu i'w goresgyn. Mae rhwystr cyffredin yn deillio o ofn ysgolion y mae rhieni'n ei wynebu oherwydd eu profiad o fethu yn y gorffennol.

25 Ychydig iawn o ddarparwyr dysgu teuluol sy'n casglu data ar lefel rhywedd. Mae hyn yn golygu nad yw llawer ohonynt wedi nodi cyfradd cyfranogiad isel dynion. Yn 2010–2011, dim ond 10% o'r cyfranogwyr ar gyrsiau byr oedd yn ddynion a 6.5% o'r cyfranogwyr ar gyrsiau hir mewn rhaglenni teuluol. Nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gynlluniau clir a thargedau ar gyfer eu recriwtio. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn colli cyfleoedd i hyrwyddo modelau rôl sy'n ddynion ar gyfer bechgyn.

### Darpariaeth

26 Mae bron pob darparwr yn defnyddio modelau cyflwyno effeithiol ar gyfer cyrsiau sy'n para dros 12 awr i gyd. Fodd bynnag, mae modelau cyflwyno ar gyfer cyrsiau byr sy'n para 12 awr a llai yn amrywio gormod rhwng awdurdodau.

27 Nid yw ffurflen gais y rhaglen grantiau yn gofyn am ddata ystyrlon am gyfranogwyr cyrsiau a dilyniant dysgwyr ar gyrsiau byr. Nid yw'r ffurflen yn gofyn am y wybodaeth sydd ei hangen i olrhain effaith y rhaglen grantiau neu i gynllunio ar gyfer gwelliannau.

28 Mae gormod o ddysgwyr yn aros ar ddarpariaeth cyrsiau byr heb ddilyniant.

29 Mae athrawon a darparwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu i gymell dysgwyr a helpu oedolion i ddeall sut mae eu plant yn dysgu.

30 Mae gan bron bob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu mewn dysgu teuluol yn gymwys a phrofiadol iawn.

31 Mae bron pob un o'r athrawon dysgu teuluol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i sefydlu anghenion y plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Mae'r rhan fwyaf o raglenni dysgu teuluol yn gosod targedau dysgu ar gyfer y plant ac yn trafod y rhain yn rheolaidd gydag athrawon dosbarth. Mae rhaglenni'n bodloni anghenion plant unigol yn dda.

### Cynnydd

32 Ar gyrsiau hwy sy'n para dros 12 awr i gyd, mae athrawon yn defnyddio ystod briodol o offer asesu cychwynnol i sefydlu anghenion unigol y dysgwyr. Maent hefyd yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn effeithiol i fonitro ac olrhain pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni ac yn symud ymlaen i ddysgu pellach.

33 Mae gorddibyniaeth ar hunanasesu anffurfiol ar gyrsiau byr yn golygu bod anghenion medrau yn aml yn cael eu nodi'n anghywir gan ddysgwyr pan fyddant yn dechrau ac nid oes gan athrawon fan cychwyn cywir ar gyfer olrhain cynnydd.

34 Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau hir a lleiafrif ar gyrsiau byr gyfleoedd da i ddilyn amrywiaeth o gymwysterau wedi'u seilio ar gredydau.

35 Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n casglu data ar ddilyniant er bod gan rai ohonynt ddata yn dangos dilyniant dysgwyr i gyrsiau mewn colegau addysg bellach neu i rolau cymorth mewn ysgolion.

36 Ni chaiff data cyrhaeddiad cymwysterau ei gasglu'n genedlaethol i greu meincnodau i fesur safonau. Mae hyn yn golygu na all darparwyr gymharu eu deilliannau â meincnodau cenedlaethol.

37 Mae dulliau o olrhain cynnydd plant ac arfarnu effaith rhaglenni teuluol ar y plant sy'n cymryd rhan yn anghyson ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o fesurau meintiol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dibynnu ar eu mesurau cynnydd eu hunain

fel asesiadau oedran darllen. Nid ydynt yn cymharu cynnydd plant ar y rhaglen â'r rhai nad ydynt ar y rhaglen. Mae gormod o ddarparwyr yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd ac yn canolbwyntio gormod ar y deilliannau ysgafnach.

38 Ychydig iawn o ysgolion a rhaglenni teuluol sy'n olrhain effaith y rhaglenni teuluol ar y safonau a gyflawnir gan blant yn y tymor hwy.

**Monitro ansawdd ac effaith y rhaglenni**

39 Mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr dysgu teuluol yn cwblhau adroddiadau hunanasesu arfarnol wedi'u seilio ar holiaduron cyfranogwyr, asesiadau athrawon, arfarniadau penaethiaid a thaflenni adborth cyrsiau. Maent yn defnyddio hunanarfarnu i lywio cynllunio gweithredol ac yn darparu adroddiadau defnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion a rhanddeiliaid hefyd.

40 Caiff arfer dda ei nodi a'i lledaenu'n dda trwy rwydweithiau a chyfarfodydd staff.

41 Mae llawer o awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar adroddiadau cydlynwyr heb goladu'r adroddiadau a'r data ar ddeilliannau dysgwyr i lywio cynllunio strategol yng nghynlluniau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI).

42 Gan nad oes data ar gael ar gyflawniad dysgwyr ar lefel genedlaethol, mae'n anodd barnu'r cynnydd cyffredinol o ran gwerth am arian. Fodd bynnag, mae cynlluniau dysgu unigol yn y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn dangos bod dysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau hir yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer ohonynt yn ennill tystysgrif ddefnyddiol sy'n eu helpu i symud i gyflogaeth neu ar gyrsiau eraill.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 ddiwygio gweithrediad y rhaglen grantiau i gymell dilyniant dysgwyr o sesiynau rhagflas i gyrsiau ymgysylltu byr ac i raglenni achrededig hwy wedyn;

A2 amodi isafswm nifer o oriau ar gyfer sesiynau rhagflas a rhaglenni ymgysylltu byr;

A3 gofyn i ddarparwyr osod targedau dilyniant, casglu data a mesur deilliannau;

A4 cyfyngu ar nifer yr adegau y gall dysgwr fynychu sesiynau rhagflas a chyrsiau ymgysylltu byr er mwyn annog dilyniant;

A5 diwygio canllawiau'r grant a ffurflenni hawlio i fynnu bod darparwyr dysgu teuluol yn dychwelyd digon o ddata i Lywodraeth Cymru a fydd yn ei galluogi i feincnodi deilliannau; a

A6 diwygio'r canllawiau ar gyfranogwyr sy'n oedolion i alluogi'r rhai y mae eu medrau ar lefel 1 i ymuno â'r rhaglen, lle mae'r ysgol wedi nodi y byddai eu plant yn elwa ar gymorth rhieni.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A7 weithio gyda phartneriaid eraill i osod targedau recriwtio sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf mewn angen;

A8 dadansoddi data recriwtio er mwyn gosod targedau recriwtio heriol ar gyfer y dyfodol;

A9 casglu data ar y gyfradd sy'n manteisio ymhlith y plant hynny y nodwyd eu bod yn gymwys;

A10 monitro cynnydd plant a nodwyd ar gyfer y rhaglenni teuluol ond nad ydynt wedi cymryd rhan, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cwblhau;

A11 sicrhau bod cynllunio strategol ar y cyd yn gwneud y mwyaf o'r holl adnoddau, yn cynnwys lleoliadau;

A12 cynnwys rhaglenni teuluol mewn cynlluniau PPPhI; a

A13 sicrhau ansawdd rhaglenni teuluol ar lefel strategol.

**Dylai darparwyr:**

A14 gasglu data dysgwyr yn ôl rhywedd a datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r diffyg yn nifer y dynion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teuluol;

A15 asesu anghenion dysgwyr yn ffurfiol wrth iddynt ddechrau ar bob cwrs;

A16 olrhain cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau a defnyddio'r data hwn i gynllunio ar lefel strategol; a

A17 gosod targedau ar gyfer dilyniant dysgwyr o gyrsiau byr rhagflas/ymgysylltu i raglenni hir.

## Pa mor dda y mae darparwyr yn targedu plant a dysgwyr sy'n oedolion?

43 Mae bron pob un o'r cydlynwyr dysgu teuluol yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i nodi'r rhai a fyddai'n elwa ar ddarpariaeth dysgu teuluol. Maent yn defnyddio data prydau ysgol am ddim a data o'r ysgolion sy'n perfformio waethaf. Maent yn defnyddio gwybodaeth o Cymunedau yn Gyntaf a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dda i dargedu cymunedau penodol. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ddealltwriaeth dda o broffil economaidd yr ardaloedd daearyddol lle maent yn gweithio ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth leol yn dda. Pan fo'n briodol, mae darparwyr yn targedu ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n cael cymorth SIY (Saesneg fel iaith ychwanegol) neu sydd â niferoedd uchel o blant yn dilyn mentrau fel y rhaglen ddarllen 'Dal i Fyny'.

44 Yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol, mae'r cydlynydd dysgu teuluol yn dewis bron pob un o'r ysgolion i'w cynnwys yn y rhaglenni dysgu teuluol trwy ymgynghori a thrafod â'r ysgolion eu hunain. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn gofyn am gyrsiau yn uniongyrchol lle maent yn teimlo y byddai disgyblion yn elwa o'r rhaglenni.

45 Ar lefel strategol, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar y targedau a ddarperir yng nghanllawiau'r grant ac nid yw llawer ohonynt yn gosod targedau recriwtio o ddadansoddiad o niferoedd y plant a'r oedolion yn eu hardal y mae angen iddynt wella eu medrau ac a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth. Mae cydlynwyr dysgu teuluol yn cynnwys targedau canllawiau'r grant mewn cynlluniau cyflwyno ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol ar gyfer ceisiadau grant.

46 Mae tua hanner yr awdurdodau yn adrodd am dargedau o gynlluniau cyflwyno mewn gweithdrefnau cynllunio ehangach yn glir. Yn yr achosion gorau, mae'r cynlluniau cyflwyno hyn yn llywio cynlluniau medrau sylfaenol ehangach, cynllun addysg yr awdurdod a chynllun y PPPhI. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n gosod targedau dysgu teuluol ochr yn ochr â, a chan gyfeirio at dargedau ar gyfer asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda rhieni a phlant mewn ardaloedd difreintiedig, er enghraifft Dechrau'n Deg.

47 Mae bron pob un o'r cydlynwyr dysgu teuluol yn olrhain targedau recriwtio a chadw yn effeithiol mewn partneriaeth â'r ysgolion yn ystod cyfarfodydd tymhorol. Mae tua hanner o'r awdurdodau lleol wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain targedau recriwtio ar lefelau strategol. Mae rhai o'r rhain yn anffurfiol trwy ymweliadau prosiect ac adborth anffurfiol gan ysgolion. Yn y ddarpariaeth fwy effeithiol, mae awdurdodau

lleol yn defnyddio cronfa ddata, adroddiadau ar fedrau sylfaenol, adroddiadau cwrs ac adroddiadau diwedd blwyddyn i olrhain cynnydd yn erbyn targedau recriwtio yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau yn arfarnu ac yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chasglu yn ddigon da i osod targedau heriol ar gyfer cyrsiau yn y dyfodol.

## I ba raddau y mae cyfranogwyr o'r grwpiau targed cytûn?

48 Mae bron pob un o'r cyfranogwyr yn y rhaglenni dysgu teuluol o'r grwpiau targed a nodwyd yn Rhaglen Grantiau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, mae'r uchafswm lefel medrau mynediad 3 ar gyfer cyfranogwyr, fel y mae wedi'i nodi yn y meini prawf grantiau, yn rhy isel ac yn atal oedolion sydd uwchlaw lefel mynediad 3 ond sydd wedi ymddieithrio o gymryd rhan mewn bywyd ysgol rhag ymuno â'r rhaglen. O'r herwydd, mae rhai plant a fyddai'n elwa ar gymorth rhieni, yn cael eu heithrio o'r rhaglenni.

49 Mae bron pob un o'r darparwyr yn recriwtio cyfranogwyr sy'n oedolion o blith unigolion, teuluoedd a chymunedau o angen. Maent yn defnyddio ystod effeithiol ac eang o strategaethau marchnata. Y strategaethau lleiaf effeithiol yw'r rhai sydd ar bapur fel taflenni, cylchlythyrau a phamffledi. Ychydig iawn o rieni y mae eu medrau llythrennedd yn isel sy'n ymateb yn gadarnhaol i ddeunydd darllen.

50 Y math mwyaf effeithiol o gyswllt cychwynnol yw dull targedig gan yr ysgol at rieni a gofalwyr penodol. Mae ysgolion yn defnyddio ystod o athrawon, cynorthwywyr addysgu a chydlynwyr cyswllt â rhieni i hyrwyddo recriwtio yn effeithiol. Mae darparwyr ac ysgolion yn teimlo mai'r allwedd yw defnyddio hyrwyddwr sydd â hygrededd gyda'r rhieni, sy'n gwybod yr amgylchiadau teuluol ac yn gallu adeiladu perthynas dda gyda nhw.

**Ysgol yn Wrecsam yn gwneud defnydd da iawn o wybodaeth leol ar gyfer recriwtio.**

Mae ysgol yn Rhaglen Dysgu Teuluol Wrecsam yn gwneud defnydd da iawn o uwch gynorthwyydd addysgu ar gyfer recriwtio. Mae'r cynorthwyydd addysgu yn defnyddio gwybodaeth am yr ardal a theuluoedd lleol yn dda iawn i dargedu'r rhai a fyddai'n elwa ar y rhaglenni teuluol. Mae'r cynorthwyydd addysgu yn mynd at rieni yn sensitif ac yn ystyried hanes y teulu, amgylchiadau'r teulu a gwybodaeth am genedlaethau blaenorol. Mae'r dull hwn yn annog cyfranogiad ar gyrsiau ac yn cael effaith gadarnhaol ar y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau ac ar y nifer sy'n aros am y cwrs ar gyfer y rhaglen lawn.

51 Mae bron pob darparwr yn cynnal cyfarfod recriwtio hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan ar ôl y cyswllt cyntaf gyda rhieni. Mae darparwyr yn defnyddio ystod arloesol o ddigwyddiadau i groesawu rhieni i'r ysgol ac ymgysylltu â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau rhwng cenedlaethau fel picnic tedi bêrs, diwrnodau chwarae a diwrnodau hwyl i'r teulu. Mae gweithgareddau wedi'u hanelu'n benodol at rieni yn cynnwys cymhellion lansio fel te, coffi a rholiau bacwn am ddim, raffl am ddim a gemau bingo.

52 Yn y ddarpariaeth fwyaf effeithiol, mae ysgolion yn targedu rhieni ar ôl nodi'r plant a fyddai'n elwa o raglenni teuluol. Mae ysgolion wedi rhoi strategaethau da ar waith i nodi'r plant i gymryd rhan mewn rhaglenni. Maent yn canolbwyntio ar y plant hynny sydd ar ei hôl hi yn eu gwaith ac sy'n annhebygol o gyrraedd eu llawn botensial oherwydd diffyg cefnogaeth gan rieni neu ddiffyg diddordeb yn eu dysgu. Mae rhai awdurdodau lleol yn monitro'r cyfraddau sy'n dilyn rhaglenni teuluol yn dda, ac mae un awdurdod wedi nodi cyfradd fanteisio rhwng 50% a 75% o blant a nodwyd ar gyfer y rhaglen. Mae lleiafrif o athrawon yn dilyn y cyswllt gyda'r rhieni yn dda i geisio gwella ar y ffigurau manteisio. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion neu ddarparwyr dysgu teuluol sy'n cofnodi neu'n dilyn y plant y nodwyd bod angen cymorth arnynt ond nad ydynt yn cymryd rhan yn y rhaglenni. Nid oes data ar gael ar gyfer y niferoedd sy'n cymryd rhan ac effaith hyn ar eu dysgu.

53 Mae bron pob un darparwr dysgu teuluol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac asiantaethau eraill naill ai mewn cyd-destun ffurfiol neu anffurfiol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd da i oedolion elwa o ystod o wasanaethau eraill fel asiantaethau gofal iechyd. Mae un darparwr wedi gweithio gyda thros 41 o sefydliadau, asiantaethau neu grwpiau eraill yn ystod y pedair blynedd diwethaf i ddarparu rhaglen ddysgu amrywiol a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd. Mae partneriaid rheolaidd yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, 'Iaith a Chwarae' a 'Rhif a Chwarae', llyfrgelloedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a seicolegwyr addysg. Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n gweithio'n effeithiol yn y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned i ddatblygu cynllun cyflwyno ar y cyd.

**Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Casnewydd yn datblygu cofnod cynllunio ar y cyd.**

Nododd y PPPhI yng Nghasnewydd y gallai rhieni fynychu nifer o gyfarfodydd agoriadol yn yr un wythnos pan fydd ysgol yn gweithio gyda nifer o fentrau. I fynd i'r afael â hyn, maent yn creu cofnod ar y cyd o'r holl waith partneriaeth. Bydd hyn yn lleihau'r dyblygu ac yn gwella targedu adnoddau. Bydd rhieni'n cael golwg glir ar yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt a dealltwriaeth well o'r modd y maent yn cyd-fynd â'i gilydd.

54 Mae lleiafrif o ddarparwyr dysgu teuluol yn cynnal cyrsiau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ymgorffori llythrennedd a rhifedd mewn cyrsiau fel bwyta'n iach a chymorth cyntaf ar gyfer plant. Maent yn defnyddio'r cyrsiau hyn yn effeithiol i ennyn diddordeb rhieni a allai fel arall fod yn amharod i ddilyn cwrs llythrennedd neu rifedd penodol.

55 Mae pob darparwr yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n wynebu llawer o'r rhieni targed. Daw'r rhan fwyaf o'r rhwystrau hyn yn sgil atgofion negyddol o addysg sydd wedi arwain at ofni ysgolion ac athrawon. Mae rhai ohonynt yn faterion mwy ymarferol fel cost gofal plant neu gludiant. Mae rhwystrau emosiynol yn aml yn golygu bod pobl yn ymateb yn negyddol i gymryd rhan mewn unrhyw fath o addysg, ymweld ag ysgolion, sefyll asesiadau neu brofion neu gymryd unrhyw ran mewn bywyd ysgol. Mae athrawon ysgol, cydlynwyr dysgu teuluol ac athrawon dysgu teuluol yn defnyddio ystod o strategaethau i oresgyn y rhwystrau hyn. Maent yn cynnal cyrsiau yn ystod oriau ysgol ac yn defnyddio tir yr ysgol. Mae llawer o ddarparwyr yn

cyfarfod a chyfarch rhieni wrth giât yr ysgol i'w gwneud yn haws iddynt gael mynediad i adeiladau'r ysgol. Cynigir cyfleusterau meithrinfa lle bynnag y mae cyllid ar gael, ac ar gyfer rhai cyrsiau lle mae cyllid cyfatebol, gall cyfranogwyr adennill costau teithio.

56 Fodd bynnag, bron ym mhob awdurdod, mae angen cyrsiau ar nifer o ysgolion, ond ni allant eu cynnig am nad oes lle yn adeilad yr ysgol. Mewn llawer o awdurdodau, nid oes cynlluniau na strategaethau ar waith i raglenni teuluol allu defnyddio lleoliadau eraill fel canolfannau Dechrau'n Deg a chlybiau ieuenctid. Collir llawer o gyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau rhwng partneriaid o'r herwydd.

57 Ychydig iawn o ddynion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teuluol. Yn 2010–2011, roedd dynion yn cyfrif am 10% yn unig o'r cyfranogwyr ar gyrsiau byr a 6.5% o'r cyfranogwyr ar gyrsiau hir. Nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gynlluniau a thargedau clir ar gyfer recriwtio'r grŵp penodol hwn. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn colli cyfleoedd i hyrwyddo model rôl da ar gyfer ennyn diddordeb mwy o fechgyn mewn dysgu llythrennedd. Nid yw ffurflen gais a ffurflenni hawlio'r grant rhaglenni teuluol yn gofyn i ddarparwyr roi data yn ôl rhywedd ac nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn casglu'r wybodaeth hon yn rheolaidd.

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

58 Mae rhaglenni teuluol yn defnyddio ystod eang o fodelau cyflwyno. Nid yw Canllawiau'r Rhaglen Grantiau gan Lywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad penodol ar gyfer y modelau cyflwyno. Mae hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol gynllunio rhaglenni sy'n berthnasol i anghenion y cymunedau, yr ysgolion a'r rhieni.

59 Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu mai ychydig iawn o gysondeb sydd yn y modelau cyflwyno rhwng darparwyr, yn enwedig ar raglenni'r cyrsiau byr. Mae hyn yn rhwystro dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd ac effaith y rhaglenni ledled Cymru.

60 Mae Canllawiau'r Rhaglen Grantiau yn nodi terfyn amser o 12 awr ar gyfer darpariaeth. Rhaid i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau dros 12 awr ystyried: data asesu ysgolion ar gyfer y plant sy'n cymryd rhan; asesiad cychwynnol o fedrau ar gyfer yr oedolion sy'n cymryd rhan; a thargedau unigol ar gyfer pob cyfranogwr.

61 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig model tebyg ar gyfer cyrsiau dros 12 awr. Mae rhaglenni'n para tua 30 awr i gyd ar gyfer naill ai llythrennedd neu rifedd. Mae cydlynwyr yn addasu hyd y cyrsiau fel eu bod yn addas ar gyfer dyddiadau'r tymor ysgol. Bron ym mhob un o'r cyrsiau hyn, mae rhieni'n gweithio gydag athro oedolion arbenigol am ran o'r cyfnod cyn i'w plant ac athro ysgol arbenigol ymuno â nhw am weddill y cyfnod. Mae'r model hwn yn gweithio'n dda, ac yn rhoi cyfleoedd i oedolion gyflawni Unedau Credyd Agored Cymru a gwella eu llythrennedd a'u rhifedd ochr yn ochr â helpu eu plant gyda'r Cyfnod Sylfaen.

62 Mae'r ddarpariaeth islaw 12 awr yn llai strwythuredig. Mae ystod y modelau cyflwyno ar gyfer cyrsiau byr yn ei gwneud yn anoddach casglu data nag ydyw ar gyfer y

cyrsiau hwy mwy strwythuredig. Nid yw'r grant yn gofyn i ddarparwyr gynnal asesiad cychwynnol na chael deilliannau cyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau byr. Mae hyn yn golygu na all darparwyr y grant arfarnu effeithiolrwydd y rhaglenni hyn yn ddigon da neu olrhain cynnydd dysgwyr. Gall cyrsiau amrywio o sesiynau rhagflas hanner diwrnod i weithdai 12 awr mewn blociau cyflwyno dwy awr. Mae bron pob un o'r cyrsiau hyn ar gyfer rhieni a gofalwyr yn unig ac nid ydynt yn cynnwys y plant. Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio'r sesiynau a'r gweithdai rhagflas hyn yn dda i ennyn diddordeb dysgwyr a chael gwared ar y rhwystrau rhag dysgu. Mae bron pob un o'r darparwyr yn cynnal y cyrsiau byr hyn o amgylch thema, sy'n apelio mwy at y rhieni nag y byddai llythrennedd neu rifedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys dosbarthiadau crefft fel creu cardiau a chreu llyfrau lloffion, coginio a dosbarthiadau bwyta'n iach neu ddysgu ar gyfrifiadur. Mae athrawon yn ymgorffori medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn y cyrsiau hyn. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar gyfer cefnogi plant fel rhan o amcanion y cwrs.

63 Mae mwyafrif o'r cyrsiau hyn yn gweithio'n effeithiol i ddenu dysgwyr ar raglenni hwy gyda nodau mwy ffocysedig i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn aros ar y cyrsiau byr hyn yn rhy hir. Maent yn symud o un cwrs byr i'r llall ac yn methu symud ymlaen i ddilyn rhaglenni hwy neu gyrsiau mwy strwythuredig i'w galluogi i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llawnach.

64 Mae gan y rhan fwyaf o athrawon darpariaeth dysgu teuluol yn gymwys a phrofiadol iawn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn athrawon cymwys sy'n meddu ar gymwysterau ychwanegol mewn cyflwyno neu addysgu medrau sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain ar lefel 3, sef y lefel cymhwyster a argymhellir gan Sgiliau Sylfaenol Cymru ar gyfer athrawon medrau sylfaenol oedolion, er bod gan rai athrawon gymwysterau lefel 4 neu lefel 5. Mae gan fwyafrif o gynorthwywyr addysgu dysgu teuluol gymwysterau lefel 2 mewn cefnogi dysgwyr medrau sylfaenol sy'n oedolion. Mae bron pob un o'r staff yn mynychu nifer dda o gyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus.

65 Mae bron pob un o'r athrawon dysgu teuluol yn gwahaniaethu eu haddysgu'n dda ac yn mynd i'r afael ag anghenion unigol dysgwyr yn dda. Maent yn cyflwyno sesiynau ymarferol a gweithredol, sy'n hwyliog ac yn ennyn diddordeb y dysgwyr yn dda. Mae'r gwersi'n symud yn dda, gyda darnau bach o ddysgu.

66 Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn canolbwyntio ar y modd y mae plant yn dysgu ac yn addysgu oedolion ynglŷn â'r theorïau ynglŷn â pham mae eu plant yn gwneud gweithgareddau penodol; er enghraifft, pwysigrwydd chwarae. Maent yn archwilio'r Cyfnod Sylfaen ac yn dysgu sut i gefnogi eu plant â'u sillafu, eu darllen, eu hysgrifennu a'u rhifedd. Mae bron pob cwrs llythrennedd yn cynnwys pwysigrwydd rhannu llyfrau â phlant a'r gwerth y gall darllen i blant ei ychwanegu at gynnydd plentyn.

**Mae Ysgol Gynradd Millbrook yng Nghasnewydd yn cynnal prosiect pontio mewn gwneud mygydau**

Mae'r darparwyr dysgu teuluol yng Nghasnewydd yn gweithio'n dda gyda'r ysgolion cynradd a'r ysgolion meithrin sy'n eu bwydo bob haf. Maent yn gwahodd rhieni i

ymuno mewn cyfres o sesiynau gwneud marciau. Mae'r sesiynau hwyliog hyn yn dangos y modd y mae plant yn dysgu medrau ac yn rhoi cyfleoedd da i rieni ymgyfarwyddo â'r ysgol: adeilad, staff, adnoddau ac ethos.

67 Mae athrawon dysgu teuluol yn dangos dealltwriaeth dda o'r cyfyngiadau ariannol y mae llawer o'r teuluoedd o fewn y rhaglenni'n eu hwynebu. Mae bron pob un o'r athrawon yn dangos sut y gall oedolion greu eu hadnoddau eu hunain i gefnogi eu plant â'u gwaith ysgol a'u dysgu, gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn aml. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwneud gemau bwrdd, gwneud llyfrau'r wyddor gyda'r plant a gwneud gemau rhyngweithiol.

68 Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau'n cynnwys ystod o ymweliadau allanol i ddangos sut y gall plant ddysgu oddi wrth y cymunedau o'u cwmpas. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau i amgueddfeydd a llyfrgelloedd, gorsafoedd tân ac ysgolion coedwig.

## I ba raddau y mae oedolion yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd?

69 Mae bron pob darparwr yn defnyddio offer asesu cychwynnol effeithiol i sefydlu medrau oedolion ar gyrsiau achredededig, hwy. Mae'r rhain yn cynnwys taflenni asesu Adeiladwr Sgiliau Sylfaenol ac Allweddol (BKSB) a Sgiliau Sylfaenol Cymru. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn cwblhau'r asesiadau hyn ar ddechrau cwrs. Fodd bynnag, mae rhai darparwyr yn gohirio'r asesiadau nes bod dysgwyr yn fwy cyfforddus ac wedi ymgynefino yn y grŵp. Mae hyn yn golygu nad yw lleiafrif o ddysgwyr yn cael targedau dysgu unigol perthnasol ar ddechrau cwrs. Mae hyn yn arafu cynnydd cychwynnol rhai dysgwyr.

70 Mae rhai darparwyr yn asesu arddulliau dysgu dysgwyr sy'n oedolion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio rhaglenni a darparu strategaethau addysgu priodol. Maent yn defnyddio'r ymarfer hwn yn dda i ddangos y dulliau amrywiol y gallai fod eu hangen ar blant a'u defnyddio i ddysgu'n effeithiol i rieni.

**Mae Rhaglenni Teuluol Wrecsam yn gwneud defnydd da o Asesiadau Cof.**

Nododd darparwyr dysgu teuluol yn Wrecsam fod cof tymor byr lleiafrif o ddysgwyr sy'n oedolion wedi'i gyfyngu a bod hyn yn arafu pa mor gyflym y maent yn dysgu. Maent wedi addasu taflenni asesu cof i'w defnyddio gyda dysgwyr sy'n oedolion ac wedi cyflwyno ystod dda iawn o gemau a gweithgareddau hwyliog yn effeithiol yn eu rhaglenni i wella medrau cof. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd dysgwyr sy'n oedolion.

71 Mae mwyafrif o ddarparwyr yn asesu dysgwyr ar gyrsiau byr rhagflas neu weithdai gan ddefnyddio ystod o ddulliau anffurfiol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio taflenni 'Gallu Gwneud' a 'Ble Ydw i Nawr?'. Mae'r taflenni hyn yn rhestru cyfres o fedrau fel 'Rwy'n gallu defnyddio priflythrennau yn gywir'. Mae'r dysgwr yn ticio blwch ar gyfer 'ydw', 'nac ydw' neu 'yn rhannol'; neu ar gyfer 'gallu gwneud', 'angen ymarfer' neu

'angen dysgu'. Fodd bynnag, mae'r asesiadau hyn wedi'u seilio ar farn y dysgwr ei hun. Nid ydynt yn darparu asesiad cyson ac nid ydynt yn darparu gwaelodlin addas ar gyfer mesur cynnydd.

72 Gall llawer o athrawon dysgu teuluol asesu medrau cychwynnol dysgwr trwy brofiad wrth arsylwi eu hatebion i ymarferion fel llenwi ffurflenni ac ymateb i lenyddiaeth gan yr ysgol. Mae'r athrawon hyn yn targedu cymorth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes asesiad ysgrifenedig ffurfiol yn golygu bod olrhain a chofnodi cynnydd dysgwyr yn rhy anghyson i allu cofnodi effeithiolrwydd y dosbarthiadau ar lefel rhaglen gyfan.

73 Mae athrawon yn olrhain cynnydd llawer o ddysgwyr ar gyrsiau hwy yn effeithiol yn erbyn targedau eu cynllun dysgu unigol (CDU). Mae llawer o athrawon yn cofnodi'r cynnydd hwn ar daflenni olrhain dosbarth-cyfan defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn olrhain, yn monitro ac yn cofnodi cynnydd dysgwyr ar gyrsiau rhagflas neu weithdy byr yn gyson.

74 Nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu teuluol dargedau ar gyfer dilyniant dysgwyr o gyrsiau byr i gyrsiau hir neu o gyrsiau hir i feysydd astudio eraill neu i gyflogaeth. Mae gan rai darparwyr ddata sy'n dangos dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau mewn sefydliadau addysg bellach, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt dystiolaeth o rai dysgwyr yn symud ymlaen i weithio yn yr ysgolion mewn rolau cymorth. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n defnyddio dulliau ffurfiol o olrhain dilyniant dysgwyr. Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i nodi a chynnig cyfleoedd dilyniant.

**Darpariaeth dysgu teuluol yn Abertawe yn cynnal cyrsiau mewn partneriaeth â'r adran gwasanaethau cymdeithasol**

Mae darparwyr dysgu teuluol yn Abertawe yn gweithio'n effeithiol iawn gyda gwasanaethau cymdeithasol i dargedu rhieni na fyddent yn cael eu nodi ar gyfer y rhaglenni fel arall. Maent wedi datblygu cymhwyster Rhwydwaith y Coleg Agored ar gyfer Rhaglen Rianta'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhaglen hon yn galluogi plant sydd ar y gofrestr 'mewn perygl' i gael amser, yr unig amser weithiau, gyda'u rhieni mewn amgylchedd dysgu adeiladol.

75 Caiff bron pob dysgwr sy'n oedolyn ar gyrsiau hir a lleiafrif o ddysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau byr gyfleoedd da ar gyfer dilyn cymwysterau perthnasol. Unedau credyd Agored Cymru ar gyfer rhaglenni dysgu teuluol fel 'Helpu plentyn gyda Darllen' yw'r rhain yn bennaf.

76 Yn 2009-2010, dyfarnodd Agored Cymru tua 1,600 o gredydau trwy raglenni teuluol yng Nghymru. Mae data presennol ar gyfer 2010-2011 yn dangos cynnydd bach dros y flwyddyn gyfan, er nad yw'r union niferoedd ar gael eto.

77 Mae'r unedau ar gyfer 2009-2010 yn amrywio mewn lefelau o Lefel Mynediad 1 i Lefel 1 gyda'r mwyafrif ar Lefel Mynediad 3. Gan fod gwerth o ddau neu dri chredyd i'r rhan fwyaf o'r unedau, mae tua 500 o unedau cyflawn ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes dull systematig o gasglu data cyrhaeddiad cymwysterau gan bob

darparwr. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw feincnodau i fesur safonau rhaglenni unigol.

78 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion yn rhoi adborth da i'r cydlynwyr dysgu teuluol ar y cyrsiau y maent yn eu dilyn. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn adolygiadau diwedd blwyddyn, yn llenwi taflenni arfarnu a holiaduron, yn cael adolygiadau tiwtorial gydag athrawon ac yn ymuno mewn trafodaethau grŵp strwythuredig ar gynnwys a pherthnasedd cyrsiau. Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau hwy yn llenwi ffurflenni adborth safonol trwy'r darparwyr colegau addysg bellach. Mae bron pob athro a chydlynydd rhaglen yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i wella'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig.

79 Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr unigol sy'n oedolion yn dda. Ar raglenni hwy, mae athrawon yn llunio CDUau defnyddiol a llawn gwybodaeth i fodloni anghenion unigol. Mae lleiafrif o athrawon yn defnyddio asesiad diagnostig cynhwysfawr o fedrau'r dysgwr i osod targedau ar CDUau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon dysgu teuluol yn athrawon brwdfrydig a sefydledig sy'n adnabod eu dysgwyr yn dda iawn. Maent yn mynd ati'n gyson i newid ac addasu adnoddau yn effeithiol i fodloni anghenion personol a dysgu eu dysgwyr ac ymdopi â dynameg eu grwpiau. Maent yn deall anghenion grwpiau diwylliannol amrywiol yn dda ac yn addasu eu dull cyflwyno yn fedrus i ddarparu cynnwys cwrs ystyrlon.

## Beth yw effaith y rhaglenni ar y plant sy'n cymryd rhan?

80 Mae llawer o ysgolion yn asesu safonau plant yn dda gan ddefnyddio ystod o brofion darllen safonedig ac asesiadau ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi'r plant a fyddai'n elwa o raglenni teuluol. Mae llawer o ddarparwyr yn gwneud defnydd da o wybodaeth bresennol ar gyfer plant sydd eisoes ar raglenni ymyrraeth.

**Mae Rhaglenni Teuluol Caerdydd yn defnyddio taflenni cofnodi cynnydd plant yn dda.**

Mae rhaglenni teuluol Caerdydd wedi cynllunio taflen gofnodi ddefnyddiol a llawn gwybodaeth ar gyfer cofnodi targedau a chynnydd y plant. Mae plant yn gwneud asesiad syml ar ddechrau'r cwrs sy'n cael ei ailadrodd wedyn ar y diwedd. Caiff y ddwy sgôr eu cymharu i fesur cynnydd. Daw'r meysydd i'w datblygu, a nodwyd o'r asesiad cychwynnol, yn dargedau ar gyfer dysgu'r plant. Caiff rhieni gyngor unigol penodol ar sut i gefnogi targedau dysgu unigol eu plentyn.

81 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn sicrhau bod rhaglenni dysgu teuluol yn ymatebol i anghenion unigol y plant y maent yn gweithio gyda nhw. Maent yn cysylltu'n dda gydag athrawon ysgol i gynllunio rhaglen ddysgu sy'n briodol i oedran ac anghenion y plant. Mae'r rhan fwyaf o raglenni'n annog rhieni i ddefnyddio meysydd diddordeb a hobïau eu plant i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, lluniodd un rhiant lyfr yr wyddor wedi'i seilio ar gludiant ar gyfer ei phlentyn, a oedd yn ymddiddori mewn ceir, tryciau a thractorau.

82 Mae'r rhan fwyaf o athrawon dysgu teuluol yn gweithio'n dda gydag athrawon dosbarth i bennu anghenion y plant tra byddant yn dilyn rhaglenni dysgu teuluol. Mae athrawon dysgu teuluol yn cyfarfod ag athrawon dosbarth yn rheolaidd trwy gydol y cwrs i drafod cynnydd y plant. Mae rhai ysgolion yn cynnal cyfarfodydd adolygu gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant.

83 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu teuluol yn mesur effaith y rhaglenni ar y plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teuluol yn ddigonol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o asesiadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol gan y timau cwrs dysgu teuluol. Mae rhai o'r rhain yn cofnodi cynnydd mewn safonau yn erbyn meincnod a bennwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw llawer o asesiadau yn mesur cynnydd mewn safonau'n ddigon da. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau yn adrodd yn dda iawn ar effaith ehangach y rhaglenni ar les y plentyn. Mae deilliannau'n dangos bod llawer o blant yn magu hyder, yn cynyddu eu brwdfrydedd at ddysgu ac yn dangos mwy o ddiddordeb mewn gwersi. Dywed athrawon fod y rhaglenni'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad plant a'u presenoldeb yn yr ysgol. Mae un darparwr yn defnyddio dull graddfa Rickter[8] yn effeithiol i fesur a darparu tystiolaeth o'r deilliannau ysgafnach a'r pellter a deithiwyd.

84 Fodd bynnag, mae dulliau o olrhain a mesur cynnydd plant ac arfarnu effaith y rhaglenni teuluol ar y plant sy'n cymryd rhan yn anghyson. Mae gormod o ddarparwyr yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd ac yn canolbwyntio gormod ar y deilliannau ysgafnach. Ychydig iawn o ysgolion a rhaglenni teuluol sydd wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain yr effaith yn y tymor hwy ar y safonau a gyflawnir gan blant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teuluol.

85 Mae bron pob plentyn yn mwynhau ei gyfnod mewn rhaglenni teuluol ac yn mwynhau gweithio ochr yn ochr â'u rhieni neu'u gofalwyr. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r profiad a byddant yn aml yn dweud wrth eu ffrindiau beth wnaethant mewn sesiynau, er enghraifft creu pyped neu chwarae gêm.

86 Mae bron pob un o'r athrawon dysgu teuluol yn rhoi anogaeth effeithiol i rieni ddangos diddordeb yng nghynnydd eu plant, a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Mae rhai athrawon dysgu teuluol yn annog rhieni i lenwi holiadur 'canfyddiad rhiant o blentyn' ar ddechrau cyrsiau ac wedyn yn adolygu'r rhain wrth i'r cwrs fynd rhagddo.

[8] Proses asesu a chynllunio gweithredu gyflawn yw'r Rickter Scale® sy'n digwydd ar fwrdd rhyngweithiol llaw, sydd wedi'i ddylunio'n benodol i fesur dangosyddion ysgafn a'r pellter a deithiwyd.

## Pa mor dda yw’r gweithdrefnau ar gyfer monitro ansawdd ac effaith y ddarpariaeth?

87 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddull strategol datblygedig ar gyfer Rhaglenni Grantiau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Maent yn ymgorffori rhaglenni dysgu teuluol mewn strategaethau ehangach ar gyfer cyflwyno ‘iaith a chwarae’ a ‘rhif a chwarae’. Yn yr achosion gorau, mae’r rhaglenni hyn yn ffurfio rhan o strategaeth medrau sylfaenol ehangach yng Nghynllun Addysg yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes digon o ffocws ar raglenni dysgu teuluol mewn cynlluniau lefel uwch fel y cynllun PPPhI a Chynlluniau Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Ychydig iawn o gydlynwyr dysgu teuluol yn unig sy’n aelod o is-grwpiau’r PPPhI. Nid yw mwyafrif o awdurdodau yn cynnwys dysgu teuluol yn ddigon da mewn strategaethau ymyrraeth eraill fel Dechrau’n Deg. Nid ydynt yn cynllunio’n effeithiol i wybodaeth gael ei throsglwyddo rhwng y rhaglenni amrywiol. Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o gynllunio strategol sydd i rieni symud yn effeithlon rhwng y rhaglenni cymorth amrywiol o’r sector cyn-ysgol i gymorth ac ymyrraeth ysgol.

88 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi creu cysylltiadau effeithiol rhwng y rhaglenni teuluol a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae’r cysylltiadau hyn yn sicrhau cydlyniad da rhwng y darparwyr addysg oedolion a’r ysgolion.

89 Mae pwyllgorau craffu’n cynnwys dysgu teuluol yn yr adolygiadau y maent yn eu cynnal o fedrau sylfaenol mewn ychydig o awdurdodau lleol yn unig. Mae hyn yn golygu nad oes gan y mwyafrif o awdurdodau lleol ddealltwriaeth ddigon da o effaith y rhaglenni teuluol.

90 Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnwys rhaglenni dysgu teuluol yn eu trefniadau gwella ansawdd ar lefel cydlynu a chyflwyno. Mae cydlynwyr dysgu teuluol yn cwblhau adroddiadau hunanasesu arfarnol fel rhan o brosesau arfarnu ehangach awdurdodau lleol. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio’r adroddiadau hyn ar gyfer hawlio’r grantiau dysgu teuluol perthnasol. Mae mwyafrif o’r adroddiadau hunanasesu hyn yn cysylltu’n dda ag adrannau o’r strategaethau ehangach ar fedrau sylfaenol, gwella ysgolion neu gynhwysiant.

91 Mae cydlynwyr dysgu teuluol yn defnyddio ystod dda o ddangosyddion perfformiad wedi’u hunan-nodi a chwestiynau ar y ffurflen hawlio grant i gwblhau eu hunanarfarniadau rhaglen. Maent yn cymryd gwybodaeth o adroddiadau gwiriwr mewnol ac allanol, data ar gyrhaeddiad dysgwyr, data ar gwblhau cyrsiau, taflenni adborth dysgwyr sy’n oedolion, adroddiadau effeithiolrwydd cyrsiau ysgolion ac adborth gan benaethiaid a darparwyr sy’n golegau. Mae llawer o gydlynwyr dysgu teuluol yn ymweld â dosbarthiadau dysgu teuluol ac yn cynnal arsylwadau ystafell ddosbarth o athrawon dysgu teuluol. Mae mwyafrif o athrawon sy’n cael eu cyflogi gan golegau addysg bellach yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau sicrhau ansawdd colegau ar gyfer addysgu, ac mae rhai ohonynt yn rhan o brosesau arsylwi cymheiriaid.

92 Mae rhai cydlynwyr dysgu teuluol yn cymryd cyfrifoldeb am brosiectau ehangach fel rhoi cyfarwyddyd i gyfranogwyr dysgu teuluol ar sefydlu grwpiau hunangymorth neu ddatblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol mewn ysgolion.

93 Mae’r rhan fwyaf o gydlynwyr yn gwneud defnydd da o adroddiadau Estyn i nodi arfer dda. Mae rhai ohonynt yn defnyddio data perfformiad yn dda i fonitro cynnydd. Mae llawer ohonynt yn cyhoeddi deilliannau perfformiad fel adroddiad dysgu teuluol defnyddiol i randdeiliaid ar ddiwedd blynyddoedd academaidd.

94 Mae llawer o gydlynwyr wedi sefydlu rhwydwaith cymorth ar gyfer darparwyr dysgu teuluol ar draws ardal ddaearyddol eang fel Gogledd Cymru a De Ddwyrain Cymru. Mae aelodau’n cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer orau a datblygu taflenni asesu anffurfiol ac adnoddau. Fodd bynnag, mae’r amrywiaeth eang o fodelau cyflwyno rhaglenni yn golygu nad ydynt yn gallu datblygu data meincnodi yn effeithiol.

95 Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio ystod o ddulliau i adolygu eu darpariaeth a chynllunio ar gyfer gwelliannau. Maent yn lledaenu gwybodaeth mewn cyfarfodydd staff rheolaidd, yn cynnwys rhannu arfer orau, trafod adroddiadau arfarnu, ac adolygu dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyrsiau. Ychydig iawn o ddarparwyr yn unig sydd wedi nodi bod angen datblygu offeryn asesu mwy effeithiol i fesur effaith y rhaglenni ar safonau llythrennedd a rhifedd plant.

96 Mae llawer o gydlynwyr yn defnyddio eu prosesau adolygu’n dda i ddiweddaru adroddiadau hunanarfarnu, cynlluniau datblygu a chynlluniau gweithredol. Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar adroddiadau cydlynwyr ac nid ydynt yn mynd ati’n systematig i fonitro ac olrhain ansawdd rhaglenni teuluol yn ddigon da ar lefel strategol.

97 Ni chaiff dysgwyr sy’n oedolion ar gyrsiau byr eu holrhain a’u monitro’n ddigon cadarn. Mae llawer o ddysgwyr yn aros ar y cyrsiau hyn yn rhy hir.

98 Caiff cynnydd plant yn y tymor byr ar bob rhaglen ei fonitro’n ddigonol gan ysgolion a rhaglenni teuluol. Fodd bynnag, ni chaiff eu cynnydd ei fesur yn erbyn cynnydd plant eraill a nodwyd ar gyfer y rhaglenni ond nad ydynt wedi cymryd rhan. Nid oes unrhyw ddata yn olrhain effaith y rhaglenni ar blant dros y tymor hwy.

99 Ni ellir llunio barn ynghylch gwerth am arian gan nad oes data ar lefel strategol a chenedlaethol. Nid oes unrhyw feincnodau i asesu safonau un rhaglen dysgu teuluol o gymharu â rhaglen arall. Fodd bynnag, mae cynlluniau dysgu unigol yn dangos bod dysgwyr sy’n oedolion ar gyrsiau hir yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer ohonynt yn ennill tystysgrif ddefnyddiol sy’n rhoi’r sylfaen iddynt symud i gyflogaeth neu gyrsiau eraill.

## Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio:

- tystiolaeth a adroddwyd yn arolygiadau Estyn o ddysgu oedolion yn y gymuned rhwng 2008 a 2011;
- ymweliadau â darpariaeth dysgu teuluol yn y lleoedd canlynol:
  - Caerffili;
  - Caerdydd;
  - Casnewydd;
  - Abertawe;
  - Sir Ddinbych;
  - Conwy;
  - Rhondda Cynon Taf; a
  - Wrecsam;
- data o Agored Cymru; a
- gwybodaeth am hawlio grantiau gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS).

## Atodiad 2 – Geirfa/cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| Agored Cymru | Sefydliad dyfarnu sy'n gwneud gwaith elusennol yng Nghymru, sy'n cynnig dyfarniadau credyd a chymwysterau |
| Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru | Sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i oruchwylio'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru |
| Sgiliau Sylfaenol Cymru | Strategaeth Llywodraeth Cymru i helpu plant ac oedolion yng Nghymru sy'n cael anawsterau â llythrennedd a rhifedd sylfaenol trwy roi 'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri' ar waith; sef y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru |
| Adeiladwr Sgiliau Sylfaenol ac Allweddol (BKSB) | Offeryn ar-lein a ddefnyddir gan lawer o ddarparwyr addysgol ar gyfer asesu a datblygu medrau dysgwyr |
| Cymunedau yn Gyntaf | Rhaglen Llywodraeth Cymru i wella amodau byw a rhagolygon i bobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru |
| Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) | Grŵp o sefydliadau yn cydweithio mewn sir i wella bywydau plant a phobl ifanc |
| Dechrau'n Deg | Rhaglen Llywodraeth Cymru yng Nghymru sydd wedi'i thargedu at blant rhwng 0 a 3 oed, sy'n gweithio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig i greu deilliannau cadarnhaol yn y tymor canolig i'r tymor hir |

| | |
|---|---|
| Iaith a Chwarae a Rhif a Chwarae | Rhaglenni byr a ffocysedig ar gyfer rhieni a gofalwyr eraill i hyrwyddo medrau iaith a rhif trwy chwarae |
| MAYTAS | System gyfrifiadurol a ddefnyddir gan lawer o ddarparwyr addysg i gofnodi a storio data |
| Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) | Sefydliad sy'n anelu at annog pob oedolyn i ymgymryd â dysgu |
| OFSTED | Y Swyddfa er Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Medrau yn Lloegr |

## Atodiad 3 – Llyfryddiaeth


Desforges, C (2003) The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievements and Adjustment.

DSCF, The Impact of Parental Involvement in Children's Education (2008)

Easton, C., Gee, G., Durbin, B., a Teeman, D (2011). Early intervention, using the CAF process, and its cost effectiveness. Findings from LARC3. Slough: NFER

Halsey, K., Harland, J., Johnson, A., Kaur, S., (2004) A world apart? Evaluation of family learning programmes in prison

HMIE (2007) Making a Difference in Scotland's Communities – A five year review of community learning and development in Scotland

Lamb,P., Fairfax-Cholmeley,K., Thomas, M., (2008) Families, Learning and Progression. NIACE

Millennium Cohort Study. Fourth Survey: A User's Guide to Initial Findings; Golygwyd gan Kirstine Hansen, Elizabeth Jones, Heather Joshi and David Budge. 2il argraffiad, Rhagfyr 2010

Ofsted (Gorffennaf 2009) Family Learning – An Evaluation of the Benefits of Family Learning for Participants, their Families and the Wider Community.

Skinner, S M (2007) Intelligence and marketing insight – Family Learning.

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Arfarniad o Raglenni Teuluol yng Nghymru. Argymhellion ar arfer effeithiol (Mawrth 2006)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) Y Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005), Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri – strategaeth i wella Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), Adolygiad o Ddarpariaeth Sgiliau Sylfaenol Ôl-16 yng Nghymru

**Cyhoeddiadau Estyn**

Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd (Ebrill 2009)

Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion (Ionawr 2010)

## Atodiad 4 – Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Gill Sims AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Rachael Bubalo AEM | Tîm yr adroddiad cylch gwaith |
| Penny Lewis AEM | Tîm yr adroddiad cylch gwaith |